Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Plas Dwbl

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Plas Dwbl

Agorwyd Coleg Plas Dwbl, sy'n rhan o Grŵp Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, ym mis Medi 2011. Mae'n goleg annibynnol arbenigol preswyl a dydd ar gyfer pobl ifanc ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ac anawsterau ymddygiadol cymdeithasol ac emosiynol.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar fferm ar odre mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae'r tir yn cynnwys porfa, coedwig a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Mae 15 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 mlwydd oed yn mynychu'r coleg ar hyn o bryd. O'r rhain, caiff naw dysgwr eu hariannu ar gyfer rhaglenni addysg, ac fe gaiff chwe dysgwr eu hariannu gan wasanaethau cymdeithasol. Caiff llawer o ddysgwyr eu gosod gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac fe gaiff ychydig o ddysgwyr eu gosod gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae mwyafrif y dysgwyr yn byw yn nhai preswyl y coleg sydd wedi eu lleoli mewn pentrefi lleol.

Mae'r coleg yn seilio'i athroniaeth addysgol ar egwyddorion sylfaenol yr athronydd a'r gwyddonydd Rudolph Steiner. Mae'n cynnig cwricwlwm addysg therapiwtig medrau ymarferol, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau go iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ystod eang o sesiynau ymarferol yn y gweithdy, yr efail, y fferm a'r gegin.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi aildrefnu ei dîm arweinyddiaeth. Mae bellach yn cynnwys pennaeth, pennaeth cynorthwyol, cydlynydd addysg a dysgu, rheolwr tir a phennaeth gofal preswyl. Ers yr ymweliad hwnnw, mae'r coleg wedi cyflogi seicotherapydd, therapydd lleferydd ac iaith a chwnselydd i ddarparu cymorth therapiwtig ar gyfer dysgwyr.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r coleg ym mis Mai 2015.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf. Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb yn gyson i ddysgwyr. Maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf gyda nhw. Mae hyn yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel a hyderus i fentro a datblygu medrau newydd.

Mewn sesiynau, mae tiwtoriaid yn darparu arweiniad a chyfarwyddyd clir. Maent yn cynllunio gweithgareddau ysgogol a heriol sy'n cymell dysgwyr ac yn adeiladu'n ystyriol ar eu diddordebau a'u dyheadau. Maent yn darparu adborth llafar cadarnhaol a chysurlon sy'n helpu dysgwyr i weithio'n ddiwyd a gweithio'n gadarnhaol tuag at eu targedau.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u nodau sesiwn. Mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof ac yn gwella eu medrau datrys problemau'n dda. Mae dysgwyr mwy abl yn datblygu eu medrau meddwl a darllen lefel uwch mewn gwaith prosiect a chyd-destunau ymarferol, er enghraifft prosiect cynllunio a dylunio yn yr efail.

Mae'r coleg wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae penodi rheolwyr canol i gydlynu gwaith timau yn helpu gwella prosesau cyfathrebu, arfer gyson a sicrhau ansawdd ar draws y coleg. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y trefniadau hyn. Mae'r coleg wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'r ymweliad monitro blaenorol.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r coleg yn casglu ystod eang o wybodaeth am lawer o agweddau ar ei ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'n gwerthuso'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi ei flaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Ers yr ymweliad diwethaf, bu cynnydd yn nifer y dysgwyr yn y coleg sydd ag ymddygiadau hynod heriol. Mae wedi cryfhau ei ddarpariaeth i gefnogi anghenion y dysgwyr hyn, er enghraifft trwy gyflogi cwnselydd, seicotherapydd a therapydd lleferydd ac iaith. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol i ychydig o ddysgwyr i gynorthwyo staff addysg sy'n gweithio gyda dysgwyr mewn sesiynau. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y fenter hon.

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod cynllunio gwelliant yn ystyried gwerthusiad y coleg o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu**

## A2. Rhoi strategaethau cymorth ymddygiad ar waith ar gyfer yr holl ddysgwyr sydd eu hangen i wneud y gorau o gynnydd a lles mewn sesiynau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod arsylwadau sesiynau yn canolbwyntio'n briodol ar y cynnydd a wna dysgwyr yn eu sesiynau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi adolygu ei ddull o arsylwi sesiynau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n briodol ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn sesiynau, yn enwedig o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ffocws hwn yn sicrhau bod cynllunio gan diwtoriaid yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr gymhwyso'r medrau hyn, a'u datblygu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn briodol pan ofynnir iddynt ehangu ar atebion neu ddatblygu eu syniadau. Mewn sesiynau ymarferol, mae dysgwyr yn ymarfer ac yn atgyfnerthu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau pwrpasol, fel cegin y coleg neu'r gerddi llysiau. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio i fireinio medrau hanfodol i sicrhau eu bod yn cefnogi nodau tymor hir dysgwyr.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd i bob un o'r staff arsylwi a rhannu arfer dda**

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd addas i staff addysgu ddatblygu eu harbenigedd a rhannu arfer dda. Mae hyfforddiant ffurfiol sy'n arwain at gymwysterau addysgu cydnabyddedig ar gyfer ychydig o aelodau o staff addysgu yn sicrhau bod y tiwtoriaid hyn yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o amrywiaeth o strategaethau addysgu.

Caiff tiwtoriaid a staff cymorth gyfleoedd rheolaidd i gyfarfod â rheolwyr canol i drafod llwyddiannau a heriau yn eu sesiynau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer deialog broffesiynol barhaus ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth ar y cyd o effaith addysgu ar ddysgu. O ganlyniad, mae sesiynau'n cynnwys ffocws priodol ar ddatblygiad medrau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r coleg wedi manteisio ar gyfleoedd i ymweld â darparwyr yn y sector i ddatblygu eu dealltwriaeth o addysgu effeithiol y tu hwnt i arfer y coleg ei hun. Mae hyn yn golygu nad oes gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau cyffredinol a'r meysydd i'w datblygu mewn addysgu a dysgu.

**Argymhelliad 3: Mireinio prosesau hunanasesu i gynnwys gwerthusiadau penodol o gynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau, a'u cyflawniad cyffredinol**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi cryfhau systemau i gasglu gwybodaeth am y cynnydd a wna dysgwyr yn ystod sesiynau. Mae hyn yn cynnwys data ar gyflawni targedau llythrennedd, rhifedd a thargedau tymor byr, yn ogystal â gwybodaeth am bresenoldeb, ymddygiad ac ennill cymwysterau.

Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd dysgwyr unigol bob tymor, ac yn rhannu'r deilliannau hyn gyda rhieni, gofalwyr ac awdurdodau lleoli. Mae cyfleoedd gwerth chweil i diwtoriaid drafod cynnydd dysgwyr o ddydd i ddydd a nodi materion ynglŷn â'u cymorth a'u lles, gan gynnwys cyfarfodydd wythnosol a briffiau dyddiol. Mae'r coleg yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i sicrhau bod y rhaglenni addysgol a'r cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion dysgwyr yn dda.

At ei gilydd, mae'r coleg yn ystyried ystod eang o wybodaeth am gynnydd a chyflawniadau dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y coleg. Fodd bynnag, nid yw'n gwerthuso'r cynnydd a wna dysgwyr ar y cyfan yn ddigonol, yn enwedig o ran cyflawni eu nodau tymor hir. Mae hyn yn golygu nad oes gan y coleg ddarlun clir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu i lywio'i gynllunio strategol yn y maes hwn.

**Argymhelliad 4: Rhoi rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ar waith sy'n cynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi cryfhau'r ddarpariaeth i gynorthwyo dysgwyr yn y maes hwn. Er enghraifft, mae wedi cyflogi cwnselydd, seicotherapydd a therapydd iaith i asesu anghenion dysgwyr a datblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth staff. Mae'r staff hyn yn ymateb i faterion a godwyd gan diwtoriaid, yn helpu cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac yn darparu arweiniad ar gyfer y tîm addysg. Er enghraifft, mae'r cwnselydd yn rhoi cyngor anffurfiol i ddysgwyr ar ystod o destunau gwerth chweil, gan gynnwys elfennau o ddiogelwch ar-lein, iechyd rhywiol a hylendid personol.

Mae'r coleg yn defnyddio egwyliau te, sesiynau a chyfarfodydd llais y myfyriwr i gasglu gwybodaeth gan y dysgwyr yn anffurfiol am eu pryderon. Mae'r dull hwn yn galluogi staff i ddechrau trafodaethau, rhannu gwybodaeth a chynllunio cymorth priodol. Fodd bynnag, nid oes dull cynlluniedig o nodi a mynd i'r afael â bylchau yng ngwybodaeth dysgwyr dros gyfnod. Mae hyn yn golygu bod y ddarpariaeth i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd rhywiol a diogelwch ar-lein o ran eu hanghenion unigol yn anghyson.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estynwww.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2019